

## Cofion a Chyfarchion

- Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf heddiw â Rhiannon Evans (Llansannan) yn dilyn marwolaeth ei brawd, Eifion, y penwythnos diwethaf. Cyflwynwn Rhiannon a'r teulu oll i ofal Duw a gweddiwn y byddant yn adnabod heddwch a thangnefedd cwmni'r Arglwydd Iesu yn gysur iddynt yn eu galar a'u hiraeth.
- Parhawn i gofio yn ein gweddiâu am Elwyn Bailey (Llansannan) sydd erbyn hyn yn cael gofal yn Hosbis San Cyndeyrn. Cyflwynwn ef, ac Eirwen a'r teulu, i ofal tyner ein Duw gan hyderu y byddant yn profi Ei agosrwydd a'i gariad yn eu hamgylchynu yn fwy nag erioed y dyddiau hyn. Cofiwn hefyd am Heddwyn Davies (Llansannan) yn dilyn ei lawdriniaeth yn Ysbyty Broadgreen yr wythnos ddiwethaf. Da clywed ei fod wedi dod adref erbyn hyn. Hyderwn y bydd yn cael ei warchod a'i gynnal wrth iddo gryfhau dros y dyddiau a'r wythnosau nesaf. Anfonwn ein cofion hefyd at Elizabeth Jones (Llansannan) yn yr Inffirmari a diolchwn am y gofal y mae'n ei gael gan y gweinyddesau yno, ac am ymroddiad a gofal y teulu hefyd.
- Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Gwyneth Evans (Cefn Meiriadog) ar ddathlu pen-blwydd arbennig yr wythnos ddiwethaf!
- Llongyfarchiadau hefyd i Owen a Hafwen Roberts (Henllan) sydd wedi dathlu 50 mlynedd o fywyd priodasol yn ddiweddar.

## I ddo

- **PWYLLGOR BLAENORIAID A DIACONIAID YR OFALAETH** yng Nghapel Llanefydd, nos Lun, Rhagfyr 8fed am 7.30.
- **GWASANAETH CAROLAU A PHLYGAIN BRO ALED** yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan nos Sul, Rhagfyr 14eg am 6.00. Paned a mins peis i ddilyn. Ymunwch â ni i ddathlu genedigaeth Crist!
- **"AWN I FETHLEM"** – Gwasanaeth Carolau Cymdeithas Llansannan yn Eglwys Sant Sannan nos Lun, Rhagfyr 15fed am 7.30.
- **GWASANAETH NADOLIG I'R TEULU YNG NGHAPEL SOAR, LLANFAIR TALHAIARN** dydd Sul Rhagfyr 21ain am 11.00 a Pharti Nadolig i bawb yn y Neuadd Goffa i ddilyn.
- **OEDFA BORE NADOLIG I'R FRO** yng Nghapel Cefn Meiriadog am 9.30.
- **OEDFA I'R FRO** bore Sul, Rhagfyr 28ain am 11.00 yng Nghapel Saron. Wedi'r oedfa, bydd cyfle i bwy bynnag sy'n dymuno gael picnic yn y Ffestri cyn mynd ar daith gerdded yn yr ardal. Mwy o fanylion i ddilyn.

## Darlleniad Wythnos Nesaf

Eseia 61:1-4 (BCND tud.677 / BCN: tud.617)

## Llais Bro Aled

Dydd Sul, 30<sup>ain</sup> Tachwedd 2014

Darlleniad y Dydd

Micha 5:1-5

(BCND tud.845 / BCN: tud.770)

[www.eglwysibroaled.com](http://www.eglwysibroaled.com) / [www.rhaglendorcas.com](http://www.rhaglendorcas.com) / [www.llanw.org](http://www.llanw.org) / [www.dawncymru.org](http://www.dawncymru.org)

Bore da a chroeso i oedfaon y dydd! Ffermwr tir mynyddig oedd Micha. Mae'n siŵr ei fod yn gweld golau Jerwsalem yn y pellter fel y byddwn ni yn gweld gwawlgoleuadau trefi'r arfordir o bob cwr o'r Fro. Fel ffermwr yn edrych o bell ar sefyllfa'r wlad, gwelai annhegwch mawr yn y drefn a fodolai ar y pryd – swyddogion ac arweinwyr y ddinas fawr yn newid rheolau ac yn ddi-hid o ffordd o fyw pobl y wlad.

Ar drothwy'r Ffair Aeaf synnwn i fawr nad oes ambell i ffermwr mynydd wedi hen syrffedu ag arferion y swyddogion a'r gwleidyddion sy'n newid y drefn byth a hefyd. Mae hyn yn arbennig o wir ar hyn o bryd gan y bydd y drefn taliadau Ewropeaidd ar y tir uchel yn gostwng i lefelau isel iawn lle na fydd amaethu yn gynaliadwy bellach ar y tir hwnnw. Mae nifer fawr o ffermwyr yn codi eu llais o blaid gwell trefn.

Gweld y tlawd yn cael eu gormesu a gweld llygredigaeth y dref ddaru'r proffwyd. Ond fe roedd y ffermwr yma, Micha, yn poeni hefyd am rywbeth arall, sef am berthynas ei bobl hefo Duw. Hwyrach na fydd y pwnc yma ar agenda cyfarfodydd yr NFU a'r FUW (!) ond i ffermwr fel Micha roedd perthynas anwahanadwy rhwng anghofio Duw a thwf anhegwch ac anghyfiawnder yn y gymdeithas. Wrth i'r bobl droi cefn ar Dduw roeddent yn anghofio sut i barchu'i gilydd a sut i drin ei gilydd yn deg. Er eu bod yn llwyddo'n faterol roeddent wedi mynd i chwenychu meysydd a llunio drygioni yn eu gwelyau ac yn gweithredu ar eu cynlluniau yn y bore (2:1-2). Roedd yr arweinwyr balch yn 'rhwygo'r croen oddi ar y bobl'. (3:2)

Beth mae Duw am ei wneud am y peth? Mae proffwydoliaeth Micha yn dweud y bydd Duw yn ochri hefo'r tlawd, yn codi'r anghenus o'r llwch ac yn adfer cyfiawnder trwy godi arweinydd newydd o bentref diarffordd, tlawd Bethlehem i dynnu'r pwysigion i lawr o'u gorseddau ac i ochri hefo'r iselradd.

Diddorol ydi sylwi fod y broffwydoliaeth yma'n cael ei darllen ganrifoedd yn ddiweddarach ym mhalas crand Herod pan ddaeth y doethion i holi am eni brenin oherwydd iddynt weld ei seren yn codi yn y dwyrain. (Mathew 2:6) Dyma stori fawr y Nadolig wrth gwrs – Duw yn dod i godi'r rhai edifeiriol, y rhai sy'n dlodion yn yr ysbryd ac i ochri hefo'r gostyngedig (1 Pedr 5:5), Duw yn codi ei Deml a'i fynydd sanctaidd ei hun ar y ddaear (Micha 4:1).

Wrth ymgyrchu a phoeni am gyflwr y byd o'n cwmpas ac wrth boeni hefyd am gyflwr ysbrydol ein pobl, byddai'n dda i ni, wrth addoli'r Arglwydd hefo'n gilydd eto heddiw, gofio'r ffordd y mae Duw yn ei ddefnyddio i ddelio hefo cyflwr y byd a dathlu mewn rhyfeddod! Cawsom ei uniganedig Fab i 'arwain y praidd yn nerth yr Arglwydd!' (5:4)

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

- Sul yma • **Oedfa'r Fro ar daith** – y tro hwn yng Nghapel y Groes am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Rhodri a bydd Celfyn Williams yn pregethu.
- Mawrth • **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
- Mercher • **Adnabod yr Angen** yn Ffestri Llansannan am 8.00.
- lau • **Cyfarfod Plant Llanefydd** am 3.15.
- **Cwrdd Chwarter** yn cyfarfod yng Nghapel Lôn Swan, Dinbych am 7.00. Yn dilyn y materion busnes, cawn anerchiad y Llywydd Mr John Davies, Lôn Swan. Hefyd fe drosglwyddir y lywyddiaeth i'r Parch. O. Aneurin Owen, a gweinyddir y Cymun gan y Parch. Graham Floyd.
- Gwener • **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc oed uwchradd yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.15.
- Sadwrn • **Darlithoedd DAWN Cymru** yng Nghapel Alfred Place, Baker Street, Aberystwyth SY23 2BS. (Paned am 10.00, y darlithoedd yn cychwyn am 10.30.)
- **Hwyl yr Ŵyl** (oedran 7-11) – Dewch i ddysgu mwy am wir ystyr y Nadolig! Sinema, gemau gwirion, parti 'Dolig, a chreffft yng Ngholeg y Bala o 10.00-5.30. Cost £10.
- Sul nesaf • **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Ben Nuss, a bydd Rhodri yn pregethu.

### Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd y Parch. Meurig Dodd yn arwain oedfa yn Llanfair am 10.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 1.15.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

### Llansannan

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- lau Dydd Jangl. Dewch **erbyn 11.00** i gael paned ac orig gerddorol, ac yna cewch ginio fel arfer oddeutu 12.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa fedydd am 10.00 pryd y bydd Eryl ac Elliw Williams yn cyflwyno Ifan Glyn i gael ei fedyddio. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

## Cyhoeddiadau

### Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.

### Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00.
- Sul nesaf Bydd Mr Alun Jones yn arwain oedfa ym Mheniel am 10.00 a Mr Dafydd Timothy yn arwain oedfa yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.

### Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Groes am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 2.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch. Irfon Parry yn arwain oedfa yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00.

### Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd y Parch. John Pritchard yn arwain oedfa yn Llanefydd am 10.00 ac yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 11.00.
- lau Bydd Clwb Cinio yr ardal yn cyfarfod yng Nghefn Berain am 12.00. Croeso i bawb!
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.

### Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:  
Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,  
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i  
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102  
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

### Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.